

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.



Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23 ar ymgysylltiad QAA â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ionawr 2024

Cynnwys

Cyflwyniad a'r wybodaeth ddiweddaraf.....	1
Y dull cyffredinol o fodloni Safonau'r Gymraeg.....	1
Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg.....	1
Diwrnod Hawliau'r Gymraeg 2022.....	2
Archwiliad yn erbyn Safonau'r Gymraeg.....	2
Cefnogi'r Gymraeg a'i rôl ym maes addysg uwch.....	3
Prosiectau Gwella Cydweithredol.....	3
Rhwydwaith Uniondeb ac Asesu Cymru.....	3
Prosiect Arferion Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid.....	3
Adolygiad Gwella Ansawdd.....	3
Mentrau i hybu cydymffurfiad.....	4
Asesiadau o'r effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.....	4
Adrodd.....	4
Trosolwg o gydymffurfiad QAA gyda Safonau'r Gymraeg yn ystod blwyddyn academiaidd 2022-23.....	5

Cyflwyniad a'r wybodaeth ddiweddaraf

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r dyletswyddau sydd gan QAA o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n ymdrin â Safonau 152, 158 a 164 fel y maent yn berthnasol i QAA, ac mae'n ymwneud â'r cyfnod o 1 Awst 2022 hyd 31 Gorffennaf 2023.¹ Mae'r hysbysiad cydymffurfio i QAA yn rhestru 113 o safonau sy'n berthnasol i'r sefydliad; mae gan nifer ohonynt fanylion eglurhaol i adlewyrchu ein cyd-destun penodol ac arbenigol.

Yn ystod 2022-23, rydym wedi parhau i ddatblygu ein harferion ymhellach mewn perthynas â'n cyfrifoldebau y cytunwyd arnynt am fodloni Safonau'r Gymraeg drwy'r sefydliad cyfan, ac rydym wedi parhau i wneud cynnydd a nodi meysydd sydd angen eu datblygu. Hefyd, archwiliwyd cydymffurfriad QAA â Safonau'r Gymraeg gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn 2022-23.

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, rydym wedi parhau i ddefnyddio'r adroddiad hwn fel cyfle i adrodd am y ffordd yr ydym yn bodloni'r safonau sy'n berthnasol i'r sefydliad, yn ogystal â'r ffordd y defnyddiwn ein rôl i hybu'r Gymraeg yn fwy cyffredinol. Felly, yn rhan gyntaf yr adroddiad hwn, byddwn yn rhoi ychydig o esiamplau sy'n dangos ein hymrwymiad ehangach i'r Gymraeg.

Mae QAA yn ymroddedig i wella a datblygu ei harferion sefydliadol yn barhaus. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae QAA wedi cynnwys cynllun gweithredu yn yr adroddiad hwn. Yn rhan o'n gwaith o ddatblygu polisi'r Gymraeg mewnol QAA (safon 94) eleni, bydd y cynllun gweithredu'n cael ei lofnodi maes o law a'i gyhoeddi ar wahân.

Y dull cyffredinol o fodloni Safonau'r Gymraeg

Trwy nifer o fecanweithiau allweddol, mae QAA yn parhau i ddefnyddio dull cyfannol o fodloni Safonau'r Gymraeg drwy'r sefydliad cyfan sydd â'r nod o feithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad. Dyma rai o'n mecanweithiau allweddol i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg yn ehangach: hyfforddiant penodol i'n staff a'n Gweithgor y Gymraeg traws-sefydliadol. Mae tîm QAA yng Nghymru - sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon - yn cadw ein prif gyswllt â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac yn gweithredu fel Swyddog y Gymraeg yn ein sefydliad. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei ysgrifennu ar y cyd gan Weithgor y Gymraeg QAA, ac wedyn yn derbyn ystyriaeth gan Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau QAA sy'n monitro cydymffurfriad ar ran Bwrdd QAA. Mae gan nifer o aelodau Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau QAA brofiad o weithio gyda Safonau'r Gymraeg a gweithredu yng Nghymru.

Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg

Mae QAA wedi parhau i ymgysylltu â gwaith Comisiynydd y Gymraeg yn 2022-23, gan gynnwys gwneud y canlynol:

- cwblhau cais am dystiolaeth ynglŷn â hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg (Hydref 2022)
- cynnal gweithgareddau ac ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Diwrnod Hawliau'r Gymraeg (Rhagfyr 2023)
- cymryd rhan mewn gweminarau am y safonau llunio polisi (Ionawr 2023) a'r safonau penodi (Gorffennaf 2023)
- cymryd rhan mewn archwiliad yn 2022-23, yn rhan o'r fframwaith rheoleiddio (cynhaliwyd y cyfarfod archwilio ym mis Mawrth 2023).

¹ Y cyfnod o 1 Awst hyd 31 Gorffennaf yw blwyddyn ariannol QAA, yn unol â'r flwyddyn academiaidd.

Diwrnod Hawliau'r Gymraeg 2022

Ers 2019, mae QAA wedi bod yn cymryd rhan ymhob Diwrnod Hawliau'r Gymraeg. Yn ystod 2022, aeth QAA ati i gynnal sesiwn i'w staff i gyd am rôl y Gymraeg mewn addysg bellach ac uwch, cyflwynodd rai o ganlyniadau lefel uchel y cyfrifiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar a rhannodd wybodaeth am ei strategaeth 'Cymraeg 2050'. Hefyd, hyrwyddwyd ein gwasanaethau Cymraeg a'n gwaith yng Nghymru ar y [cyfryngau cymdeithasol](#).

Archwiliad yn erbyn Safonau'r Gymraeg

Cafodd QAA ei monitro yn rhan o sampl yr ail flwyddyn o sefydliadau o dan fframwaith rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg. Roedd y broses archwilio'n cynnwys gwirio rhai o wasanaethau QAA; tystiolaeth o holiaduron hunanasesu; tystiolaeth o'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2021-22; cwynion ac ymholiadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd; a thystiolaeth a roddwyd ar lafar yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2023.

Cyn y cyfarfod archwilio, tynnodd y Swyddog Archwilio sylw at nifer o feysydd a allai achosi pryder, fel a ganlyn:

- mae'r datganiad sy'n ofynnol o dan safonau 45 a 46A (argaeledd fersiwn Gymraeg) wedi ei osod ar waelod dogfennau a ffurflenni felly nid yw'n amlwg
- dim ond dwy ffurflen sydd ar gael yn y Gymraeg allan o sampl o bump
- mae cynnwys Cymraeg y wefan yn gyfyngedig iawn.

Ymdriniodd QAA â'r materion hyn mewn llythyr a anfonwyd at swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar 1 Chwefror 2023. Yn y llythyr hwn, amlinellwyd y camau a gymerwyd gennym i fynd i'r afael â'r problemau yn y meysydd sydd wedi eu nodi uchod, yn ogystal â'n camau gweithredu arfaethedig i atal diffyg cydymffurfio.

Er mwyn cynrychioli'r dull cyfannol yr ydym yn ei ddefnyddio drwy'r sefydliad cyfan i fodloni Safonau'r Gymraeg, cymerodd y cyfarwyddiaethau a ganlyn ran yn y cyfarfod archwilio:

- Yr Uwch Dîm Rheoli a'r Tîm Gweithredol
- Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- Cyllid a Seilwaith
- Materion Corfforaethol
- Marchnata a Chynhyrchu

Nododd y Swyddogion Archwilio y canfyddiadau allweddol a ganlyn:

- **Gwasanaethau ffôn:** Nodwyd y gallai'r llinell ffôn Gymraeg a weithredir gan QAA fod yn faes o arfer da. Yn dilyn y cyfarfod, anfonodd y Swyddogion holiadur at QAA i'w gwblhau am arferion da a allai gael eu cyhoeddi fel astudiaeth achos. Ym mis Ebrill 2023, darparodd QAA y wybodaeth ychwanegol a dychwelodd y ffurflen i swyddfa'r Comisiynydd.
- **Gwefan:** Er bod QAA wedi esbonio ei bod yn cyhoeddi'n ddwyieithog unrhyw ddogfennau neu dudalennau ar ei gwefan sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'i gwaith yng Nghymru neu sydd i fod i roi gwybodaeth i gynulleidfa gyffredinol yng Nghymru, nododd y Swyddogion nad ydym yn cydymffurfio'n llawn â safon 48.
- **Hunaniaeth gorfforaethol:** Canfuwyd bod QAA yn defnyddio logo Saesneg yn unig ac felly nad yw'n cydymffurfio â safon 79. Mae QAA yn defnyddio 'QAA Cymru' ar gyfer unrhyw waith sy'n berthnasol i Gymru.

- **Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol:** Mae QAA wedi bod yn datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol (safon 94). Mae'r polisi'n nodi ein dull rhagweithiol o sicrhau ein bod yn cyfateb â'n hysbysiad cydymffurfio, gan ystyried y cyd-destun. Nododd y Swyddogion fod y polisi'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau safon 94 a gofynasant i weld y polisi unwaith y bydd wedi ei gwblhau.
- **Trefn gwyno:** Esboniodd y Swyddogion bod trefnau cwyno'n un o'r meysydd y mae'r Comisiynydd yn canolbwyntio arnynt ar hyn o bryd, ac nad oedd trefn gwyno QAA yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safonau 150, 156 a 162. Ym mis Mehefin 2023, cyflwynodd QAA bolisi wedi ei ddiwygio i sicrhau cydymffurfiad llawn. Cadarnhawyd bod y diweddariadau'n bodloni gofynion safonau 150, 156 a 162 yn llawn.

Lle gwelwyd nad oedd QAA yn cydymffurfio'n llawn, amlinellodd y Swyddogion y broses herio ac apelio berthnasol. Mae QAA wedi defnyddio'r broses archwilio i hysbysu ei dull cyfredol o sicrhau cydymffurfiad a chefnogi ei gwaith o gynllunio camau gweithredu. Mae QAA yn parhau i weithio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ddatrys nifer o'r meysydd sydd wedi eu nodi uchod.

Cefnogi'r Gymraeg a'i rôl ym maes addysg uwch

Mae'r Gymraeg yn tanategu gwaith QAA yng Nghymru drwy ein hysbysiad cydymffurfio a'n diben fel sefydliad o sicrhau bod myfyrwyr a dysgwyr yn cael profiad addysg o'r ansawdd uchaf posibl. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut, ac i ba raddau, yr ydym yn cydymffurfio â'r gofynion sydd arnom ni mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu, cadw cofnodion, a monitro ac adrodd, ond mae ynddo hefyd esiamplau penodol o'n gwaith yn 2022-23 sy'n dangos ein hymrwymiad ehangach i'r Gymraeg a'i rôl ym maes addysg uwch yng Nghymru. Mae rhai o'r esiamplau hyn yn adeiladu ar y rheiny oedd yn ein hadroddiad blynyddol blaenorol.

Prosiectau Gwella Cydweithredol

Mae QAA yn parhau i gefnogi Prosiectau Gwella Cydweithredol ar draws y sector addysg uwch yng Nghymru, a ariennir drwy gytundebau grant â CCAUC. Mae'r meini prawf ar gyfer cynnig prosiectau'n cynnwys *ystyriaeth o'r effaith gadarnhaol y bydd y prosiect yn ei chael ar ddarpariaeth a chyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg/dwyieithog*. Caiff pob cynnig prosiect ei asesu yn erbyn y maen prawf hwn.

Rhwydwaith Uniondeb ac Asesu Cymru

Yn ystod 2022-23, roedd trafodaethau Rhwydwaith Uniondeb ac Asesu Cymru, a ariennir gan CCAUC, yn ymwneud â'r heriau sy'n codi o'r defnydd cynyddol a wneir o ddeallusrwyddartiffisial a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar uniondeb academiaidd a gwaith asesu. Yn y Rhwydwaith, trafodwyd goblygiadau technolegau o'r fath i'r Gymraeg, er enghraifft, argaeledd gwasanaethau deallusrwyddartiffisial cyfrwng Cymraeg.

Prosiect Arferion Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid

Yn rhan o'r Prosiect Gwella Arferion Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid a ariennir gan CCAUC, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffordd y mae nifer yr aelodau staff sy'n siarad Cymraeg sydd ar gael gan ddarparwyr addysg uwch yn effeithio ar allu'r darparwyr i weinyddu a chynnal sesiynau arsylwi gan gymheiriaid yn y Gymraeg.

Adolygiad Gwella Ansawdd

Yn ystod 2022-23, mae QAA wedi diwygio'r dull Adolygiad Gwella Ansawdd, a ariennir drwy gytundebau grant â CCAUC. Yn rhan o'r gwaith diwygio hwn, cymerodd QAA y cyfle i gryfhau ei hymrwymiad i'r Gymraeg yn y broses adolygu a'i llawlyfr. I gael rhagor o fanylion, gwelwch yr is-adran *Asesiadau o'r effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg*.

Mentrau i hybu cydymffuriad

Asesiadau o'r effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae QAA yn ymroddedig i wella a datblygu ei harferion sefydliadol yn barhaus. Yn ein hadroddiad ar gyfer 2021-22, roeddem wedi nodi ein bod wedi ffurfioli'r rhestr wirio i asesu effaith polisïau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r rhestr hon ar gael yn awr i'w defnyddio ar gyfer prosiectau perthnasol, yn ogystal â pharhau i fod yn rhan o'r rhestr wirio i asesu effaith polisïau yn gyffredinol. Yn ystod 2022-23, cafodd hon ei threialu ar nifer o brosiectau allweddol ac mae ystyried asesiadau o'r effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi dod yn eitem sefydlog ar agenda pob un o gyfarfodydd Gweithgor y Gymraeg.

Un o'r prosiectau lle defnyddiwyd y rhestr wirio i asesu effaith polisïau mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod 2022-23 oedd y dull diwygiedig o wneud Adolygiad Gwella Ansawdd, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023. Roedd yr asesiad o effaith yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn bennaf mewn ymatebion i'r cwestiynau a ganlyn:

- Sut y gellid newid y broses adolygu fel y mae wedi ei disgrifio yn y llawlyfr i gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?
- Sut y gellid newid y broses adolygu fel y mae wedi ei disgrifio yn y llawlyfr i gael effeithiau cadarnhaol ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg?

O ganlyniad i'r asesiad o effaith, mae QAA wedi cryfhau ei hymrwymiad i'r Gymraeg yn llawlyfr y dull adolygu. Cyflawnwyd hyn drwy ddulliau fel, cynnwys gwybodaeth yn y llawlyfr ynglŷn â sut i gwyno am gydymffuriad QAA, darparu fersiynau drafft o adroddiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac amlygu rhai o arferion rheolaidd QAA yn rhannau perthnasol y llawlyfr. Nododd QAA hefyd ei bod yn bwriadu cynyddu nifer yr adolygwyr sy'n siarad Cymraeg.²

Adrodd

Mae QAA yn adrodd yn flynyddol yn erbyn safonau 152, 158 a 164, ynghylch y ffordd yr ydym wedi cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi a'r safonau gweithredu sy'n berthnasol i ni. Mae'r adroddiad ar ffurf tabl sy'n nodi pwy sy'n gyffredinol gyfrifol am bob safon neu bob grŵp o safonau, yr hyn a wnawn, sut yr ydym yn monitro'r safonau a sut yr ydym yn adrodd. Rydym yn dyfynnu hefyd o ymatebion a gyflwynwyd gennym i geisiadau gan Gomisiynydd y Gymraeg am dystiolaeth yn ystod y flwyddyn, ac felly bydd ein hadroddiad yn adlewyrchu'r ymatebion hyn yn agos. Rydym yn parhau i roi enghreifftiau o gyhoeddiadau, eitemau newyddion, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a gwybodaeth arall sy'n dangos ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac yn dangos y gweithgareddau a wnawn i hybu'r Gymraeg. Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn ddwyieithog, mae'n cael ei gyhoeddi ar ein gwefan, a rhoddir gwybod am hyn i'r cyhoedd. Rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol bob mis Ionawr, yn unol â'r gofyniad amser o chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, fel y nodwyd yn safonau 152, 158 a 164.

² [Canlyniadau'r ymgynghoriad ar y fersiwn drafft o'r Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd](#), tud. 13

Trosolwg o gydymffurfiad QAA gyda Safonau'r Gymraeg yn ystod blwyddyn academiaidd 2022-23

Cyflenwi gwasanaethau	Llunio polisi	Gweithredu	Cadw cofnodion	Monitro ac adrodd
Mae'r safonau hyn wedi eu lliwio'n oren	Mae'r safonau hyn wedi eu lliwio'n las	Mae'r safonau hyn wedi eu lliwio'n wyrdd	Mae'r safonau hyn wedi eu lliwio'n goch	Mae'r safonau hyn wedi eu lliwio'n borffor

Grŵp	Yn gyffredinol gyfrifol	Is-grŵp	Safonau	Yr hyn a wnawn	Monitro	Adrodd
Cyflenwi gwasanaethau						
	Gweinyddwyr ym mhob adran	Gohebiaeth	1-7	<p>Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg yn gynnes iawn a byddwn bob amser yn ateb gohebiaeth o'r fath yn y Gymraeg o fewn yr un terfyn amser â gohebiaeth a dderbyniwn yn Saesneg. Mae QAA yn gweithio'n agos â chyfieithydd i sicrhau nad oes unrhyw oedi yn yr ymateb i ohebiaeth a dderbyniwn yn y Gymraeg.</p> <p>Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dilyn sgwrs ar lafar yn y Gymraeg hefyd yn y Gymraeg, oni wnaed cais fel arall.</p> <p>Gwelwch y wybodaeth isod am linell ffôn Gymraeg QAA.</p> <p>Mae cylchlythyrau/newyddion sy'n ymwneud â'n gwaith yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.</p> <p>Rydym yn sicrhau bod dewisiadau iaith yn cael eu cofnodi yn ein system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid yn rhan o'r broses o gofnodi dewisiadau ynglŷn â'r RhDDC. Mae templed dwyieithog</p>	<p>Rydym yn monitro i ba raddau yr ydym yn bodloni'r safonau cyflenwi gwasanaethau, gan hyrwyddo'r gwasanaethau a gynigiwn a'u gwneud yn haws eu defnyddio.</p> <p>Mae ein hadroddiad blynyddol yn nodi sut, ac i ba raddau, yr ydym yn cydymffurfio.</p> <p>151</p>	<p>Mae ein hadroddiad blynyddol yn ymdrin â'r ffordd yr ydym wedi bodloni'r safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n berthnasol i ni ac wedi ymateb i unrhyw gwynion.</p> <p>152</p>

				<p>ar gyfer cofnodi dewisiadau iaith ar gael i'r holl staff ar wefan benodol 'Safonau'r Gymraeg' SharePoint ar fewnrwyd QAA. I fonitro hyn, rydym yn cofnodi'r dyddiad pan ofynnir i'r cysylltiadau am eu dewisiadau iaith. Yn ystod 2022-23, aethom ati i ddatblygu ein dull o gofnodi dewisiadau iaith ymhellach, yn rhan o'n proses o gofrestru ar gyfer digwyddiadau, er mwyn gwella ein harferion yn y maes hwn. Datblygwyd y dull hwn o gasglu gwybodaeth i sicrhau ein bod mewn gwell sefyllfa i gofnodi dewisiadau iaith cysylltiadau presennol QAA ac unigolion sy'n cysylltu â ni am y tro cyntaf.</p> <p>Mae datganiad sy'n nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg yn cael ei gynnwys yn llofnod e-bost y cydweithwyr sy'n gohebu ag unigolion a sefydliadau yng Nghymru.</p> <p>Mae'r templed dewisiadau iaith yn cynnwys dolen at fersiynau Cymraeg a Saesneg o hysbysiad preifatrwydd QAA. Mae'r hysbysiad preifatrwydd yn rhestru 'dewis iaith' fel un o'r categorïau dan 'ddata personol a gesglir ac a brosesir', sy'n cynnwys dewisiadau ynglŷn â'r Gymraeg.</p> <p>Cyhoeddir Safonau Gwasanaeth QAA ar gyfer Ymholiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg, a chaiff y rhain eu hadolygu bob blwyddyn.</p> <p>Gellir anfon ymholiadau sy'n ymwneud â'n gwaith yng Nghymru yn y Gymraeg</p>		
--	--	--	--	---	--	--

				<p>neu'r Saesneg ar yr e-bost. Ni dderbyniwyd unrhyw ymholiadau ysgrifenedig yn y Gymraeg yn ystod 2022-23.</p>		
	Rheolwr Cyfleusterau	Cysylltu ar y ffôn	8, 9, 11, 12, 14-17, 19-21	<p>Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae gan QAA linell ymholiadau a weithredir yn ystod oriau'r swyddfa gan aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg. Derbyniwyd un alwad yn ystod 2022-23.</p> <p>Nid oes gan QAA brif linell ffôn ar gyfer gwaith yng Nghymru, ond mae ganddi linell ffôn Gymraeg uniongyrchol a hysbysebwr ar y wefan ac yn llofnod e-bost pob cydweithiwr sy'n gohebu ag unigolion a sefydliadau yng Nghymru. Fel arall, mae gan brif linell ymholiadau QAA system awtomataidd sy'n rhoi cyfle i'r sawl sy'n galw gael eu cyfeirio'n syth at y llinell ffôn Gymraeg pan fyddent eisiau gwneud hynny. Mae'r llinell ffôn Gymraeg yn cael ei phrofi gan staff QAA bob mis, a chedwir cofnodion perthnasol.</p> <p>Nid yw staff QAA Cymru wedi derbyn unrhyw alwadau uniongyrchol yn y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diweddar.</p> <p>Am ein bod wedi gweithio mewn amgylchedd rhithwir a bod ein trefniadau gweithio'n hyblyg yn unol â pholisi 'Hyblyg+' QAA, derbynnir mwy o ymholiadau drwy ohebiaeth ysgrifenedig ar yr e-bost na thrwy alwadau ffôn.</p>		

				<p>O brofiad, mae galwyr yn ymwybodol bod gwahanol feysydd yn galw am wahanol arbenigrwydd ac felly mai dim ond yr arbenigwr perthnasol sy'n gallu ateb y mwyafrif o ymholiadau manwl.</p>		
	QAA Cymru	Cyfarfodydd	24, 24A, 25, 25A, 25D	<p>Mae QAA wedi ei hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal mewn perthynas â chyfarfodydd a gynhaliwn yng Nghymru, ac rydym yn ceisio gwneud yn siŵr ein bod wedi gofyn i unigolion beth yw eu dewis iaith ac wedi gweithredu ar hynny. Mae hyn yn cynnwys y defnydd a wnawn o'r templed dwyieithog ar gyfer cofnodi dewisiadau iaith a'n gwaith o ddatblygu ein proses o gofrestru ar gyfer digwyddiadau ymhellach, fel y nodwyd uchod.</p> <p>Os bydd cyfranogwyr sy'n dewis siarad Cymraeg yn bresennol mewn cyfarfod penodol ond mae llai na 10% o'r bobl sy'n bresennol eisiau siarad Cymraeg, bydd QAA yn rhoi gwybod i'r cyfranogwyr i gyd y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn y Saesneg. Os byddwn yn cynnal cyfarfod gyda chydweithwyr o ddarparwr addysg uwch, a drefnwyd drwy ein prif gyswllt yn y darparwr, byddwn yn gofyn i'n cyswllt gadarnhau a fydd angen gwasanaeth cyfieithu. Mae hyn yn berthnasol i gyfarfodydd adolygu hefyd. Os trefnir cyfarfod gyda chydweithwyr yng Nghymru, byddwn yn nodi a fydd yn cael ei gynnal yn y Gymraeg neu'r Saesneg (yn dibynnu ar nifer y</p>		

				<p>cyfranogwyr sy'n dewis siarad Cymraeg a fydd yn bresennol yn y cyfarfod, o'i gymharu â'r trothwy o 10%).</p> <p>Mae QAA yn brofiadol mewn defnyddio cyfleusterau rhithwir ar gyfer cyfieithu ar y pryd, sef y rheiny a ddarperir ar y platfformau <i>Zoom</i> a <i>Microsoft Teams</i>. Am fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ar y platfform Microsoft Teams erbyn hyn, mae QAA wedi dechrau defnyddio'r gwasanaeth hwn ar gyfer cyfarfodydd lle mae gofyn cyfieithu ar y pryd. Mewn digwyddiadau, mae QAA yn parhau i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd sydd ar gael ar y platfform Zoom.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar draws ein sefydliad, rydym yn parhau i ddefnyddio ein canllawiau i'n staff (a ddatblygwyd yn 2020-21 ac a nodwyd yn ein hadroddiadau blynyddol blaenorol) sy'n esbonio sut i archebu a gosod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd, ac sy'n cynnwys sgrinluniau perthnasol i ddangos manylion y broses. Yn ystod 2022-23, diweddarwyd y canllawiau hyn i gynnwys arweiniad ar sut i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd sydd ar gael ar y platfform Microsoft Teams.</p> <p>Dyma rai o bynciau'r canllawiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • asesu'r angen am wasanaeth cyfieithu ar y pryd (rhwng y Gymraeg a'r Saesneg) • manylion cyswllt ein darparwyr 		
--	--	--	--	---	--	--

				<p>gwasanaeth cyfieithu ar y pryd</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut i drefnu'r cyfarfod ar y platfformau Zoom a Microsoft Teams a chychwyn y cyfieithu • gwybodaeth a awgrymir i'w roi i'r cyfieithwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o gyd-destun y cyfarfod • dolen at y ddogfen gan Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â sut i gynnal cyfarfodydd dwyieithog ar-lein. <p>Rydym yn parhau i gynnal sesiynau hyfforddi i hybu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg a hefyd i roi rhai awgrymiadau da am ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar-lein.</p> <p>Dewiswyd nifer o ddarparwyr gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y Gymraeg gennym fel ein prif ddarparwyr er mwyn sicrhau bod ein cyhoeddiadau'n cael eu cyfieithu'n gyson.</p> <p>Yn ystod 2022-23, cynhaliwyd pum cyfarfod/digwyddiad ar-lein gan QAA lle'r oedd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar gael. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd arall yn y Gymraeg gan QAA heb ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.</p>		
	Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau	Digwyddiadau cyhoeddus	31-34	<p>Mae unrhyw gyhoeddusrwydd i faterion sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â'n gwaith yng Nghymru'n cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg.</p> <p>Lle darperir arwyddion dwyieithog neu rai ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg,</p>		

			<p>maent yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder, strwythur ac amlygrwydd.</p> <p>Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ystod 2022-23. Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru gan QAA ers blynyddoedd lawer, ac nid yw QAA yn ariannu unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru. Hefyd, nid yw QAA yn trefnu unrhyw gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p> <p>Mae deunyddiau cofrestru pob digwyddiad sy'n berthnasol i Gymru ar gael yn ddwyieithog. Os na fydd ein system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid yn cynnwys cofnod o ddewis iaith yr unigolyn (e.e. os byddent yn cysylltu â ni am y tro cyntaf), byddwn yn defnyddio eu dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) wrth gwblhau'r ffurflen gofrestru ar gyfer y digwyddiad i gofnodi eu dewis. Os bydd mwy na 10% o gyfranogwyr mewn digwyddiad a gynhelir yng Nghymru wedi dewis siarad Cymraeg, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Fel y nodwyd uchod, rydym wedi datblygu ein dull o gofnodi dewisiadau iaith ymhellach, yn rhan o'n proses o gofrestru ar gyfer digwyddiadau, er mwyn gwella ein harferion yn y maes hwn.</p> <p>Yn 2020-21, prynodd QAA drwydded ar gyfer y platfform <i>EventsAir</i> i gynnal digwyddiadau ar-lein. Mae'r platfform yn defnyddio Zoom fel ategyn fideo, ac mae hwn yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.</p>		
--	--	--	--	--	--

				<p>Gwnaethpwyd asesiad i sicrhau ei fod yn bodloni Safonau'r Gymraeg y mae dyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw cyn i ni brynu unrhyw feddalwedd. Yn 2022-23, defnyddiwyd EventsAir i gynnal digwyddiad lle'r oedd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.</p>		
	Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau	<p>Dogfennau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a deunyddiau, gan gynnwys ffurflenni, sydd ar gael i'r cyhoedd</p> <p>Canllawiau byr i fyfyrwyr neu i gynulleidfa gyffredinol</p>	39, 40, 43, 44-47	<p>Mae unrhyw gyhoeddiadau sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â'n gwaith yng Nghymru neu sydd i fod i roi gwybodaeth i gynulleidfa gyffredinol yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Sicrheir bod y ddau fersiwn ar gael yr un pryd ac yn derbyn yr un amlygrwydd. Er enghraifft, gwelwch y gwe-dudalennau ar gyfer yr Adolygiad Ansawdd Porth (Cymru) sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Mae QAA yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu a dylunio i sicrhau bod cyhoeddiadau yn y Gymraeg yn cael eu dylunio'n effeithiol yn y Gymraeg. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod ein cyhoeddiadau'n cael eu cyfieithu'n gyson. Yn ogystal, pan fydd cyhoeddiadau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg mae QAA yn nodi hynny. Ers yr archwiliad yn erbyn Safonau'r Gymraeg (fel y nodwyd uchod), rhoddwyd lle mwy amlwg i'r datganiad hwn yn ein cyhoeddiadau (er enghraifft, gwelwch adroddiad yr Adolygiad o Union Foundation sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg). Yn ystod 2022-23, cyfieithwyd 260,594 o eiriau o'r Saesneg i'r Gymraeg gan QAA, mewn adroddiadau, cyhoeddiadau, papurau pwyllgorau,</p>		

				<p>gohebiaeth a phapurau eraill. Mae hyn yn gynydd o 23,539 o eiriau o'i gymharu â'r ffigur yn 2021-22.</p> <p>Nodwch: ni dderbyniodd QAA unrhyw geisiadau am ffurflenni Cymraeg yn ystod y flwyddyn weithredu hon. Mae ffurflenni cofrestru a gwerthuso ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru neu ein gwaith sy'n berthnasol i Gymru ar gael yn y ddwy iaith. Mae gennym hefyd ffurflenni Cymraeg ar gyfer hawlio treuliau, costau teithio a chostau cynhaliadau, ac i ymdrin ag ymholiadau a chofnodi dewisiadau cyfathrebu.</p> <p>Wrth i ni ymestyn y defnydd a wnawn o feddalwedd i reoli digwyddiadau a chyswllt â chwsmeriaid, byddwn yn sicrhau bod gofynion o ran y Gymraeg yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau ein prosesau/manylebau technegol (gwelwch yr enghraifft uchod o'r drwydded ar gyfer plattform i gynnal digwyddiadau ar-lein a brynwyd gennym yn 2020-21). Eleni, ychwanegwyd ystyriaeth o'r Gymraeg fel un o'r gofynion wrth brynu meddalwedd newydd ar gyfer rheoli digwyddiadau. Yn ogystal, prynodd QAA drwydded ar gyfer meddalwedd arolwg newydd yn 2022-23. Cyn symud ymlaen i'w brynu, aseswyd y meddalwedd hwn i sicrhau bod modd ei ddefnyddio i wneud arolygon yn y Gymraeg.</p>		
	Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau	Y wefan	48, 51, 52	Mae gwefan QAA yn rhoi cyfle i'r defnyddwyr weld ein gwe-dudalennau yn y Gymraeg. Rhwng 1 Awst 2022 a		

				<p>31 Gorffennaf 2023, ymwelwyd â'n gwe-dudalennau Cymraeg 3,975 o weithiau (sef rhwng 0.24 a 0.34% o'r ymweliadau cyfan â'n gwe-dudalennau*). Mae'r ymweliadau â'n gwe-dudalennau wedi cynyddu o 200% rhwng 2021-22 a 2022-23. Mae QAA yn gallu monitro gweithgareddau gweld a lawrlwytho ar bob un o'i gwe-dudalennau.</p> <p>Ers 1 Ionawr 2023, rydym wedi adolygu holl gynnwys Cymraeg ein gwe-dudalennau ac rydym wedi adeiladu 28 o dudalennau newydd ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae 217 o dudalennau Cymraeg.</p> <p><i>*Nodwch: O ganlyniad i gyflwyno Google Analytics 4 ym mis Mehefin, newidiwyd y ffordd y mae data am ymweliadau â'n gwe-dudalennau'n cael ei gasglu. Am fod llawer o aelodau staff QAA yn gweithio o gartref erbyn hyn, ni allwn dynnu'r data sy'n perthyn iddyn nhw o'r ffigurau hyn am ymweliadau â'n gwe-dudalennau; felly, bydd y ffigurau'n cynnwys ymweliadau gan staff QAA hefyd.</i></p> <p>Gyrrir y wefan Mynediad i AU yn bennaf gan gronfa ddata o gyrsiau ac mae darparwyr y cyrsiau, sydd y tu allan i QAA, yn gyfrifol am ysgrifennu eu disgrifiadau. Fodd bynnag, mae QAA yn cyfieithu deunyddiau sy'n berthnasol i Asiantaethau Dilysu Mynediad yng Nghymru pan fydd gofyn. Er enghraifft, cafodd hysbysiadau sy'n effeithio ar ganlyniadau myfyrwyr eu cyfieithu er mwyn i Asiantaethau Dilysu Mynediad eu harddangos ar eu gwefannau eu hunain.</p>		
--	--	--	--	---	--	--

	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Cyfarfodydd y Bwrdd a materion cysylltiedig	37	<p>Rydym yn cyhoeddi fersiynau wedi eu golygu o gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ar ein gwefan.</p> <p>Mae'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Cynghori ar Strategaeth QAA Cymru (sy'n is-bwyllgor i Fwrdd QAA) ar gael i'r aelodau yn y ddwy iaith. Os bydd mwy na 10% o gyfranogwyr yn y cyfarfod wedi dewis siarad Cymraeg, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.</p> <p>Nid yw QAA yn cynnal unrhyw gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>		
	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Trwyddedau, tystysgrifau a rheolau	38, 41	<p>Mae'r safon hon yn parhau i gael ei bodloni: mae trwyddedau Asiantaeth Dilysu Mynediad yn cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg i asiantaethau sy'n gweithio yng Nghymru; gallwn gynhyrchu trwyddedau i ddefnyddio eiddo deallusol QAA yn y Gymraeg hefyd os gofynnir amdanynt.</p> <p>Nid yw QAA yn cyhoeddi unrhyw reolau sy'n berthnasol i'r cyhoedd.</p>		
	Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus	Datganiadau i'r wasg	42	<p>Mae datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau a wneir mewn perthynas â'n gwaith yng Nghymru neu'r ddarpariaeth yng Nghymru'n cael eu cyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Er enghraifft, gwelwch yr eitem newyddion o fis Mai 2023, sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n rhoi gwybod am lansiad ymgynghoriad ar y dull Adolygiad Gwella Ansawdd.</p>		

	Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus	Cyfryngau cymdeithasol	54, 55	<p>Lle mae unrhyw ddefnydd a wneir o'r cyfryngau cymdeithasol wedi ei anelu at y sector addysg uwch yng Nghymru, mae'r gofynion o ran yr iaith Gymraeg wedi eu cynnwys yn y protocolau ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae gan QAA gyfrif canolog ar gyfer ei holl gyfryngau cymdeithasol sy'n berthnasol i Gymru. Mae postiadau am waith sy'n berthnasol i Gymru'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog (neu ochr yn ochr â'r iaith arall).</p> <p>Er enghraifft, gwelwch y neges sy'n hyrwyddo un o'n digwyddiadau, a ariennir gan CCAUC, am ficro-gymwysterau ym mis Mai 2023, sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein sianel @QAATweets ar Twitter. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23, cyhoeddwyd cyfanswm o 24 neges ddwyieithog gennym ar Twitter.</p>		
	Rheolwr Cyfleusterau	Arwyddion a hysbysiadau	57-59, 65, 66	<p>Rydym yn darparu arwyddion a hysbysiadau'n ddwyieithog neu ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â gofynion y safonau hyn; bydd yr holl hysbysiadau'n rhoi'r testun Cymraeg yn gyntaf. I gael rhagor o fanylion, gwelwch y wybodaeth a nodwyd mewn perthynas â safonau 61 a 61A.</p>		
	Rheolwr Cyfleusterau	Gwasanaethau'r dderbynfa	61, 61A	<p>Ers 1 Awst 2021, nid oes gan QAA swyddfa ffisegol yng Nghymru ac felly nid oes ganddi ei gwasanaeth derbynfa ei hun. Mae QAA wedi bod yn gweithredu polisi gweithio 'Hyblyg+' ers mis Mehefin 2021. O ganlyniad i'r polisi hwn, mae</p>		

				<p>swyddfa QAA yng Nghaerloyw yn agored ar gyfer gwneud gwaith swyddfa yn unig, felly dim ond unigolion, yn hytrach na gwasanaeth derbynfa penodol, fydd yn cyfarch ymwelwyr. Yng nghyd-destun gweithio o bell a'n polisi 'Hyblyg+', dim ond nifer fechan o bobl sy'n ymweld â swyddfa QAA.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, mae QAA yn gweithredu llinell ffôn awtomataidd sy'n caniatáu i'r galwr gael ei gyfeirio i'r llinell ffôn Gymraeg ar unwaith, os yw'n dewis hynny.</p>		
	Cyfarwyddwr Cyllid	Gwahoddiadau i dendro	72, 73, 73A, 75, 76	Mae'r Llawlyfr Caffael yn adlewyrchu gofynion y safonau hyn.		
	Cyfarwyddwr dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon	Hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg	77 (78)	<p>Rydym yn ceisio sicrhau bod ein rhanddeiliaid yng Nghymru'n gwybod am ein hymrwymiad i'r Gymraeg. Er enghraifft, mae pob tudalen ar ein gwefan sy'n ymwneud â gwaith QAA yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog, ac rydym yn cyhoeddi e-gylchlythyr QAA Cymru chwarterol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn y cylchlythyr, defnyddir y swigen oren (<i>laith Gwaith</i>) fel symbol adnabyddus i ddangos bod gwasanaethau Cymraeg ar gael. Rydym yn defnyddio'r plattform <i>Mailchimp</i> ar gyfer ein cylchlythyr i sicrhau bod ein deunyddiau'n hawdd eu defnyddio'n ddwyieithog.</p> <p>I hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg ymhellach, cymerodd QAA ran yn Niwrnod Hawliau'r Gymraeg ym mis Rhagfyr 2022 am y bedwaredd flwyddyn</p>		

				<p>yn olynol. Wrth i ni adeiladu ar ein cyfranogaeth o un flwyddyn i'r llall, cynhaliwyd sesiwn i'n staff i gyd gennym yn 2022 am rôl y Gymraeg mewn addysg bellach ac uwch, ac aethom ati i gyflwyno canlyniadau lefel uchel y cyfrifiad i'n staff a chynnal sesiynau hyfforddi i hybu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg. Yn ogystal, mae QAA wedi hyrwyddo ei gwasanaethau Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol.</p>		
	Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau	Hunaniaeth gorfforaethol	79	<p>Fel y nodwyd gennym ar dudalennau cyntaf yr adroddiad hwn, canfu'r archwiliad diweddar o'n cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg fod hwn yn faes sydd angen ei ddatblygu. Mae QAA yn parhau i drafod sut i ddatrys y mater gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.</p>		
	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Trefn gwyno mewn perthynas â'r Gymraeg	<p>150 cyflenwi gwasanaethau</p> <p>156 llunio polisi</p> <p>162 gweithredu</p>	<p>Gwelwch 141 i 143 isod.</p> <p>Cofnodir pob cwyn, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â chydymffurfiad, yn unol â Gweithdrefn QAA ar gyfer ymdrin â Chanmoliaeth, Sylwadau a Chwynion, a ddiweddarwyd ym mis Mehefin 2023 i gydymffurfio'n llawn â gofynion safonau 150, 156 a 162 (fel y nodwyd uchod); cedwir y cofnodion perthnasol yn unol â threfn QAA ar gyfer cadw dogfennau. Yn ystod y flwyddyn, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion am ein hymdrech i lynu at Safonau'r Gymraeg.</p> <p>Mae unrhyw gwynion am gydymffurfiad QAA â Safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud â safonau cyflenwi gwasanaethau 150,</p>		

				<p>safonau llunio polisi 156 a safonau gweithredu 162 yn dilyn yr un broses â chwynion eraill (mae manylion y broses wedi eu nodi yn nogfen 'Trefn Gwyno' QAA sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg).</p> <p>Mae ein tudalen we '<i>Cwyno am QAA ac apelio yn erbyn penderfyniadau</i>' ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>		
--	--	--	--	---	--	--

Llunio polisi						
	Mae gan y Dirprwy Brif Weithredwr a'r arweinwyr polisi ym mhob maes gweithredu ar y cyd y cyfrifoldeb am ddatblygu, addasu ac adolygu polisiâu	Llunio, addasu ac adolygu polisiâu	84, 85, 86 Ac hefyd safon cadw cofnodion 144	<p>Mae gan bob un o bolisiâu corfforaethol QAA ddyddiadau adolygu. Hefyd, mae gan QAA Bolisi'r Gymraeg (gwelwch safon 94). Mae Fframwaith Polisiâu a Rhestr Wirio i Asesu Effaith Polisiâu QAA yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn derbyn ystyriaeth briodol os ceir ymgynghoriad yn ymwneud â phenderfyniad polisi.</p> <p>Yn 2021-22, mae QAA wedi ffurfioli ei Rhestr Wirio i Asesu Effaith Polisiâu mewn perthynas â'r Gymraeg, sydd ar gael i'n staff ar ein gwefan 'Safonau'r Gymraeg' SharePoint. Gallwch weld esiampl o hyn yn yr adran <i>Mentrau i hybu cydymffurfiaid</i> ar dudalennau cyntaf yr adroddiad hwn. Dyma'r cwestiynau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Enw'r polisi • A yw'r polisi'n newydd neu'n fersiwn ddiwygiedig? • A yw'r polisi'n berthnasol i Gymru? • Pa effeithiau (cadarnhaol neu negyddol) fydd y polisi'n eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? • Sut y gellid llunio (neu newid) y polisi i gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? • Pa effeithiau (cadarnhaol neu negyddol) fydd y polisi'n eu cael ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol 	<p>Rydym yn monitro i ba raddau yr ydym yn bodloni'r safonau llunio polisi, gan hyrwyddo'r gwasanaethau a gynigiwn a'u gwneud yn haws eu defnyddio. Mae ein hadroddiad blynyddol yn nodi sut, ac i ba raddau, yr ydym yn cydymffurfio.</p> <p>157</p>	<p>Mae ein hadroddiad blynyddol yn ymdrin â'r ffordd yr ydym wedi bodloni'r safonau llunio polisi sy'n berthnasol i ni ac wedi ymateb i unrhyw gwynion.</p> <p>158</p>

				<p>â'r Saesneg?</p> <ul style="list-style-type: none"> Sut y gellid llunio (neu newid) y polisi i gael effeithiau cadarnhaol ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg? Casgliad <p>Mae pob un o bolisiâu QAA sy'n ymwneud â'n swyddogaethau sy'n wynebu'n allanol yn cael eu datblygu neu eu hadolygu yn ôl y gofynion, ac mae pob polisi perthnasol yn cynnwys ystyriaeth o'r safonau llunio polisi.</p>		
	<p>Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus (ar gyfer cyhoeddi ymgynghoriadau ar ôl eu datblygu gan yr arweinydd polisi perthnasol)</p>	<p>Ymgynghori ar bolisiâu</p>	<p>87-89</p>	<p>Bydd QAA yn ystyried a yw ei ymgynghoriadau'n ymwneud â phenderfyniad polisi yn ôl y safonau hyn, a bydd yn cynnwys cwestiwn penodol yn y ddogfen ymgynghori pan fydd hynny'n berthnasol.</p> <p>Nid yw QAA wedi cynnal unrhyw ymgynghoriad mewn perthynas â'n gwaith yng Nghymru sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi. Pan mae QAA wedi cynnal ymgynghoriad yn ymwneud â'i gwaith yng Nghymru, mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn ystyried y gofynion o ran y Gymraeg bob amser - er enghraifft, yr ymgynghoriad diweddar a gynhaliwyd rhwng misoedd Mai a Mehefin 2023 ar y fersiwn diwygiedig o'r Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd. Sicrhawyd bod holl ddeunyddiau'r ymgynghoriad ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ogystal, roedd y cwestiynau a ganlyn yn yr ymgynghoriad oedd yn ymwneud</p>		

				<p>yn benodol â'r Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut y gellid newid y broses adolygu fel y mae wedi ei disgrifio yn y llawlyfr i gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? • Sut y gellid newid y broses adolygu fel y mae wedi ei disgrifio yn y llawlyfr i gael effeithiau cadarnhaol ar drin y Gymraeg yr un mor ffatriol â'r Saesneg? <p>Defnyddiwyd y wybodaeth hon i hysbysu'r asesiad o'r effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (fel y nodwyd uchod).</p>		
	Arweinwyr polisi	Gwaith ymchwil ar gyfer llunio polisi	91-93	<p>Bydd QAA yn ystyried a yw'r gwaith ymchwil y mae'n ei gomisiynu neu'n ei wneud wedi ei fwriadu i helpu i wneud penderfyniad polisi yn ôl y safonau hyn, a bydd yn cynnwys gofyniad penodol ym manyleb y gwaith ymchwil pan fydd hynny'n berthnasol. Nid yw QAA wedi gwneud unrhyw waith ymchwil yn ddiweddar i helpu i wneud penderfyniadau polisi.</p> <p>Pan fydd gwaith ymchwil o'r fath yn cael ei wneud, bydd y Fframwaith Polisiâu a'r Rhestr Wirio i Asesu Effaith Polisiâu'n cael eu defnyddio i sicrhau y gwneir asesiad o'r effaith mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg (gwelwch uchod).</p>		

Gweithredu

	<p>Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Cyfundrefnol</p>	<p>Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol</p>	<p>94</p>	<p>Mae QAA wedi datblygu Polisi'r Gymraeg mewnol yn 2022-23. Yn ystod y broses o archwilio cydymffuriad QAA â Safonau'r Gymraeg, cyflwynwyd y polisi ar lafar, a bydd Gweithgor y Gymraeg yn ei lofnodi yn ystod 2023-24. Nod y polisi yw cydgasglu ein dulliau o fodloni'r Safonau, cyfuno canllawiau a dogfennau sy'n cefnogi ein hymrwymiad, a helpu ein staff i ddeall ein gwaith yn y maes hwn yn well ac i ddeall bod hyn yn berthnasol i'r sefydliad cyfan.</p> <p>Fel sefydliad sy'n gweithio drwy'r DU gyfan, byddwn yn asesu sut y gall polisi o'r fath gyfateb orau â phob llinyn o'n gwaith yng Nghymru a'i berthynas â'n gwaith mewn rhannau eraill o'r DU.</p> <p>Yn 2022-23, cynhaliodd QAA arolwg ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CAC) oedd ar gael i'w holl weithwyr cyflogedig a dros dro yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd y wybodaeth a'r arolwg ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Lanswyd yr arolwg yn hwyr ym mis Gorffennaf 2023; felly, bydd ei ganlyniadau wedi eu nodi yn y cyfnod adrodd nesaf.</p>	<p>Rydym yn monitro i ba raddau yr ydym yn bodloni'r safonau gweithredu, gan hyrwyddo'r gwasanaethau a gynigiwn a'u gwneud yn haws eu defnyddio. Mae gwefan 'Safonau'r Gymraeg' SharePoint yn amlinellu'r ffordd y mae QAA yn rheoli, yn cefnogi ac yn monitro'r broses o weithredu'r safonau. Caiff hon ei hadolygu'n rheolaidd gan Weithgor y Gymraeg QAA.</p>	<p>Mae ein hadroddiad blynyddol yn ymdrin â'r ffordd yr ydym wedi bodloni'r safonau gweithredu sy'n berthnasol i ni ac wedi ymateb i unrhyw gwynion.</p>
	<p>Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Cyfundrefnol</p>	<p>Sgiliau a gallu yn y Gymraeg, ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a datblygiad</p>	<p>123, 126-129 Ac hefyd safon cadw cofnodion 145</p>	<p>Caiff sgiliau iaith pob ymgeisydd eu hasesu yn y ceisiadau am swyddi sy'n gofyn am sgiliau yn y Gymraeg yn rhan o fanyleb y person.</p> <p>Mae ein system rheoli adnoddau dynol</p>	<p>163</p>	<p>164</p>

		y rhain		<p>yn galluogi i ni gadw cofnod cyfredol o'r sgiliau iaith sydd gan bob un o'n gweithwyr. Rydym yn bwriadu hyrwyddo'r gallu hwn ymhellach, a byddwn yn parhau i annog ein staff i gofnodi eu sgiliau Cymraeg yn ystod 2023-24. Hefyd, mae ein hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg yn cynnwys gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg sydd ar gael. Rydym yn cynnal sgysiau am ddatblygiad a chyfarfodydd un-i-un i ganfod anghenion datblygiad ein staff, ac rydym yn rhagweithiol wrth ddarparu hyfforddiant.</p> <p>Mae QAA yn parhau i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r gofynion o ran y Gymraeg drwy hyfforddi ei staff. Cynhaliwyd tair sesiwn hyfforddi yn ystod 2022-23. Mae'r hyfforddiant yn hysbysu'r staff am Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y dyletswyddau sydd gan QAA yn ei gwaith o dan y mesur hwn, strategaeth 'Cymraeg 2050', y dull o gofnodi dewisiadau iaith Gymraeg, y dull o fonitro cydymffuriad, a rhai atebion i gwestiynau cyffredin. Yn ogystal, mae'r hyfforddiant yn cynnwys diweddariadau gan Gomisiynydd y Gymraeg a'r diweddaraf am ei waith, fel y bo'n briodol. Yn 2022-23, gosodd QAA yr hyfforddiant i hybu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg i mewn i'r broses ymsefydlu i bob gweithiwr sy'n cychwyn o'r newydd. Hefyd, mae QAA yn cadw cofnod o bob aelod o'r staff</p>		
--	--	---------	--	---	--	--

				<p>sydd wedi gwneud yr hyfforddiant.</p> <p>Mae QAA wedi creu rhestr i'w staff o atebion i gwestiynau cyffredin sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd i gyd-fynd ag ymholiadau a ddaw gan staff am ein dyletswyddau o ran y Gymraeg.</p>		
	Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Cyfundrefnol	Recriwtio a phenodi	132, 132A, 133, 133A, 133B, 135, 136	<p>Rydym yn asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg mewn gwahanol rolau. Gwelwyd bod sgiliau Cymraeg yn faen prawf manteisiol mewn 11 o'r swyddi yn strwythur cyfredol QAA. Rydym yn ailasesu'r angen am sgiliau ysgrifenedig a llafar yn y Gymraeg yn rheolaidd pan fyddwn yn hysbysebu swyddi gwag.</p> <p>Lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol i swydd, byddwn yn ceisio penodi gweithiwr sy'n siarad Cymraeg. Rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023, hysbysebwyd un swydd wag gan QAA lle'r oedd sgiliau yn y Gymraeg yn fanteisiol. Y swydd hon oedd rôl y Cyfarwyddwr dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a benodwyd ym mis Tachwedd 2022. Buom yn gweithio gyda sefydliad sy'n arbenigo mewn chwilio am weithredwyr uwch i'r sector, ac roedd yr hysbyseb am y swydd, disgrifiad y swydd a'r wefan ymgeisio benodol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Bydd pob swydd wag a hysbysebir yn y cyfryngau yng Nghymru, a fydd yn cynnwys pob un sy'n ymwneud â'n gwaith yn benodol i Gymru, yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog, a byddwn yn</p>		
			Ac hefyd safonau cadw cofnodion 147, 148			

				<p>cynnwys testun yn yr hysbyseb i gynghori ymgeiswyr i nodi a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod y proses recriwtio a dethol. Bydd gwybodaeth sy'n benodol berthnasol i'r swydd ar gael yn y ddwy iaith. Esiampl ddiweddar o hyn oedd penodiad y Cyfarwyddwr dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (fel y nodwyd uchod).</p> <p>Gellir cyflwyno ceisiadau am swyddi gwag, lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n fanteisiol, yn y naill iaith neu'r llall, a byddwn yn trin y ddwy iaith yn gyfartal; bydd unrhyw ohebiaeth gysylltiedig yn bodloni'r safonau perthnasol.</p>		
	Cyfarwyddwr Cyllid	Meddalwedd ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg	116	Mae pecynnau iaith Gymraeg ar gyfer meddalwedd Microsoft Windows ar gael i'r staff i gyd.		
	Cyfarwyddwr dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon	Tudalennau ar y fewnwyd i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg	121	<p>Defnyddir gwefan 'Safonau'r Gymraeg' SharePoint i reoli, cefnogi a monitro'r broses o weithredu'r safonau ar draws QAA.</p> <p>Mae'r wefan SharePoint hon hefyd yn cynnwys adnoddau i hybu ymwybyddiaeth y staff sy'n cynnwys: rhestr o ddogfennau Cyngor ac Arfer Da gan Gomisiynydd y Gymraeg, sesiwn hyfforddi wedi ei recordio ynglŷn â sut i weithredu Safonau'r Gymraeg yn QAA, rhestr o atebion i gwestiynau cyffredin am Safonau'r Gymraeg, cylch gwaith a chofnodion Gweithgor y Gymraeg QAA,</p>		

				<p>a thabl o'r gofynion cydymffurfio sydd arnom ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â sut mae hyn yn berthnasol i QAA.</p> <p>Gall y staff gael gafael hefyd ar ddolenni cyflym at Borth Termau Cenedlaethol Cymru, Geiriadur yr Academi, Y Termiadur Addysg ac ymadroddion i'w defnyddio i gyfathrebu yn y Gymraeg.</p> <p>Mae'r wefan Gymraeg yn cynnwys templedi dwyieithog i'r staff eu defnyddio, megis holiaduron i gofnodi dewisiadau ynglŷn â'r RhDDC a'r iaith Gymraeg a ffurflenni ar gyfer hawlio treuliau. Rhoddir gwybod i'r staff am y templedi hyn yn ystod y sesiwn hyfforddi i staff QAA am Safonau'r Gymraeg.</p>		
	Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau	Troedynnau e-bost a negeseuon e-bost	130, 131	<p>Llwythwyd troedyn e-bost i wefan 'Safonau'r Gymraeg' SharePoint i'w ddefnyddio gan aelodau o'r staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chysylltiadau yng Nghymru.</p> <p>Mae gan QAA ganllaw gyda thempledi ar gyfer llofnodion e-bost sy'n cynnwys templed dwyieithog.</p>		

Cadw cofnodion					
	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Cwynion	141-143	Cofnodir unrhyw gwynion, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â chydymffurfiad, yn unol â threfn gwyno QAA. Cedwir unrhyw gwynion, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â chydymffurfiad â'r safonau, yn unol â threfn QAA ar gyfer cadw dogfennau. Mae rhagor o wybodaeth uchod.	
	Cyfarwyddwr Cyllid	Llunio polisi	144	Cedwir cofnodion ar wefan 'Safonau'r Gymraeg' SharePoint. Mae'r Rhestr Wirio i Asesu Effaith Polisiâu mewn perthynas â'r Gymraeg ar gael ar y wefan SharePoint hefyd. Fel y nodwyd uchod, cyflwynir asesiadau o'r effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg i Weithgor y Gymraeg QAA.	
	Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Cyfundrefnol	Sgiliau iaith y staff	145	O blith gweithwyr cyfredol QAA, mae un gweithiwr yn rhugl mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar. Rydym yn bwriadu cwblhau archwiliad sgiliau yn ystod 2023-24, yn ogystal ag annog ein staff i gofnodi eu sgiliau Cymraeg ar y system rheoli adnoddau dynol. Mae'r system hon yn galluogi i ni gofnodi lefelau gallu ein staff yn y Gymraeg, yn cynnwys eu lefelau ysgrifennu, darllen, cyfieithu a medrau llafar. Fel y nodwyd uchod, mewn sesiynau hyfforddi i hybu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg, mae QAA yn hysbysebu cyrsiau Cymraeg sydd ar gael i'w staff drwy wefan	

				Llywodraeth Cymru.		
	Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Cyfundrefnol	Penodi a'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen	147, 148	Cedwir cofnodion gan Adnoddau Dynol.		
	Cyfarwyddwr dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon	Cadw cofnod o'r safonau sy'n berthnasol i ni a chyhoeddi sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio â hwy	149, 153 155, 159 161, 165 167 Hefyd gwelwch uchod, cyfrifoldebau am gadw cofnodion	Cedwir y prif gofnod ar wefan 'Safonau'r Gymraeg' SharePoint. Mae agenda holl gyfarfodydd Gweithgor y Gymraeg QAA yn cynnwys ymholiadau ynglŷn â chydymffurfio fel eitem sefydlog. Efallai bod dogfennau atodol (megis manylebau swyddogaethau ar gyfer prosesau busnes) yn cael eu cadw yn rhywle arall. Bydd ein polisi mewnol yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd yr ydym yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau perthnasol (gwelwch safon 94). Mae ein hadroddiad blynyddol hefyd yn nodi sut, ac i ba raddau, yr ydym yn cydymffurfio â'r safonau sy'n berthnasol i ni.		

Monitro ac adrodd

	<p>Cyfarwyddwr dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon</p>	<p>Monitro i ba raddau yr ydym yn bodloni'r safonau, gan hyrwyddo'r gwasanaethau a gynigiwn a'u gwneud yn haws eu defnyddio.</p> <p>Cyhoeddi ein trefniadau ar ein gwefan.</p>	<p>151 cyflenwi gwasanaethau</p> <p>157 llunio polisi</p> <p>163 gweithredu</p>	<p>Mae cyfres o fecanweithiau sy'n perthyn i'w gilydd yn cael eu defnyddio i fonitro i ba raddau yr ydym yn bodloni Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i ni. Mae swyddog dynodedig ar gyfer pob safon sydd â chyfrifoldebau swyddogaethol, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei nodi, ac mae Cyfarwyddwr dynodedig sy'n darparu goruchwyliaeth. I ategu'r oruchwyliaeth hon, mae QAA wedi bod yn gweithredu Gweithgor y Gymraeg traws-sefydliadol ers 2019-20.</p> <p>Tynnir aelodau'r gweithgor hwn o adrannau sy'n gweithio gydag unigolion a sefydliadau yng Nghymru. Mae cylch gwaith cymeradwy'r gweithgor hwn yn nodi ei fod yn gyfrifol am wneud adolygiad rheolaidd o'r hysbysiad cydymffurfio a sut mae hwnnw'n berthnasol i waith QAA sy'n ymwneud â Chymru.</p> <p>Mae hefyd yn gyfrifol am gymryd camau gweithredu yn y meysydd lle'r ydym efallai heb gydymffurfio, am sicrhau gwell cydymffurfiaid â'r gofynion ac annog arferion gorau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg drwy'r sefydliad cyfan, ac am roi cyngor ac arweiniad ynghylch yr adroddiad blynyddol ar ymgysylltiad QAA â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.</p> <p>Mae'r gweithgor wedi datblygu'r eitemau sefydlog a ganlyn yn organig, ac maen nhw'n cael eu trin mewn trafodaethau bord gron yn aml iawn: ymholiadau ynglŷn â chydymffurfiaid, syniadau i hybu'r</p>		
--	--	--	---	--	--	--

				<p>Gymraeg, ac asesiadau o'r effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.</p> <p>Yn ogystal, mae'r gweithgor hwn yn cael ei hysbysu'n rheolaidd am ddiweddariadau gan Gomisiynydd y Gymraeg a datblygiadau yn y strategaeth 'Cymraeg 2050', ac mae'n ystyried sut mae QAA yn gwneud cyfraniad ehangach at dwf yr iaith Gymraeg yng Nghymru - er enghraifft, gweithgareddau sydd wedi eu nodi yn yr adran <i>Cefnogi'r Gymraeg a'i rôl ym maes addysg uwch</i> ar dudalennau cyntaf yr adroddiad hwn.</p> <p>Yn ystod 2022-23, roedd rhai o brif feysydd gwaith Gweithgor y Gymraeg yn deillio o'r archwiliad yn erbyn Safonau'r Gymraeg.</p> <p>Ystyrir fersiwn drafft o'r adroddiad blynyddol gan Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau QAA sy'n monitro cydymffuriad ar ran Bwrdd QAA.</p>		
	Cyfarwyddwr dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon	Cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, hyrwyddo a chyhoeddi'r adroddiad ar y we	152 cyflenwi gwasanaethau 158 llunio polisi 164 gweithredu	<p>Cynhyrchir yr adroddiad blynyddol yn yr hydref a bydd yn derbyn ystyriaeth gan Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau QAA, sy'n llofnodi'r adroddiad ar ran Bwrdd QAA cyn ei gyhoeddi. Mae aelodaeth y pwyllgor hwn yn cynnwys cynrychiolydd o'r sector addysg uwch yng Nghymru. Mae'r adroddiad blynyddol yn ymdrin â blwyddyn ariannol flaenorol QAA (o 1 Awst hyd 31 Gorffennaf). Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar ein gwefan, a rhoddir gwybod am hyn i'r cyhoedd.</p>		

	Cyfarwyddwr dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon	Cyflwyno wybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â chydymffurfiad â'r safonau	154 cyflenwi gwasanaethau 160 llunio polisi 166 gweithredu 168 cadw cofnodion	Byddent yn cyflwyno'r wybodaeth hon os gofynnir amdani, megis yr ymatebion y cyfeiriwyd atynt ar dudalennau cyntaf yr adroddiad hwn yn yr adran <i>Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg</i> . Yn 2022-23, cyflwynodd QAA wybodaeth mewn ymateb i un cais a gafwyd am dystiolaeth.		
--	---	--	--	--	--	--

Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000

www.qaa.ac.uk